

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
CYFARFOD:	Cyngor Sir
DYDDIAD:	15/05/18
TEITL YR ADRODDIAD:	Adroddiad Blynyddol yr Arweinydd
PWRPAS YR ADRODDIAD:	Adrodd ar Waith yn ystod 2017/18
ADRODDIAD GAN:	Arweinydd y Cyngor

Rhagair

Mae'n anodd credu bod blwyddyn wedi mynd heibio ers i mi gael fy ethol yn Arweinydd Cyngor Ynys Môn. Rwyf eisiau rhoi adroddiad blynyddol sydd yn adrodd ar y cynnydd rydym wedi cyflawni yn erbyn Maniffesto'r Glymblaid.

Dyma ddywedodd y Grŵp -

Yn etholiad 2013 addewid ymgeiswyr Plaid Cymru i bobl Môn oedd eu bod am 'Adfer Enw Da Môn'. Mae Cynghorwyr Plaid Cymru a'r Cynghorwyr Annibynnol wedi cydweithio yn effeithiol dros y pedair blynedd diwethaf ac am adeiladu ar y llwyddiant yma.

Mae aeddfedrwydd gwleidyddol wedi datblygu dros y 4 mlynedd diwethaf ac mi fydd yn rhoi sylfaen cadarn i Gyngor Ynys Môn gychwyn ar y cyfnod nesaf. Mae'r aelodau sy'n dod at ei gilydd wedi profi bod y gallu ganddynt i roi sefydlogrwydd gwleidyddol sydd yn hanfodol er mwyn llywodraethu yn effeithiol.

Beth rydym wedi gwneud?

Rydym wedi parhau i weithio fel y Cyngor blaenorol gyda phob protocol yn cael ei gadw'r un fath er mwyn sicrhau cyfle teg i bob cynghorydd.

Mae datblygiad Wylfa Newydd ag agwedda positif i'n hieuenctid a dyfodol teuluoedd Ynys Môn, gyda hyd at 800 o swyddi parhaol. Ond nid ydym yn derbyn y datblygiad hwn ar unrhyw gost. Rydym am amddiffyn buddiannau Ynys Môn a sicrhau bod unrhyw sgil effeithiau ar ein cymunedau yn sgîl y datblygiad yn cael ei liniaru gan y datblygwyr. Mae cymunedau cryf a llewyrchus yn nòd gennym.

Beth rydym wedi gwneud?

Rydym wedi creu Portffolio ychwanegol er mwyn sicrhau'r capasiti angenrheidiol er mwyn sicrhau'r gorau i bobl Ynys Môn yn y trafodaethau gyda Horizon. Rydym wedi ymrwymo i hyrwyddo'r datblygiad gyda dealltwriaeth bod anghenion Ynys Môn yn hanfodol i lwyddiant y prosiect.

Rydym mewn trafodaethau gyda'r Cynghorau Tref a chymuned ar ein strategaeth Cynllunio Lle sydd yn rhoi cyfle i bawb o fewn eu cymunedau ddod at ei gilydd i drafod eu gweledigaethau ar gyfer eu hardaloedd.

Rydym yn wynebu toriadau sylweddol i gyllideb yr awdurdod ac mae cynnal

gwasanaethau am fod yn heriol. Byddwn yn gyrru'r agenda trawsnewid yn ei flaen er mwyn amddiffyn ein gwasanaethau rheng flaen.

Beth rydym wedi gwneud?

Rydym wedi cytuno ar gyllideb 18/19 sydd yn parhau i warchod ein gwasanaethau er i ni dderbyn toriad unwaith yn rhagor fel Cyngor. Rydym yn parhau i fod yn y chwarterl isaf drwy Gymru o ran Treth Cyngor. Mae 17/18 wedi bod yn heriol iawn i wasanaethau Plant ac Addysg sydd wedi gorwario, bydd rhaid i'r gorwariant gael ei ariannu o'r arian wrth gefn.

Rydym wëid parhau i yrru'r angen am drawsnewid gwasanaethau gyda'r Adran Technoleg Gwybodaeth yn sicrhau newid mawr yn yr Adran Gynllunio gyda'r ceisiadau i gyd ar y we i bobl Ynys Môn allu pori drwyddynt. Rydym yn dal i weithio ar wella ein gwasanaeth cwsmer drwy gyflwyno mwy o ffyrdd i wneud ceisiadau am wasanaeth ar-lein.

Addysg

Rwy'n siŵr i chi gofio ein bod fel Clymblaid yn llwyr gredu bod pob plentyn a pherson ifanc yn Ynys Môn yn haeddu'r cyfle gorau i gyrraedd eu potensial llawn -

*Rydym eisiau parhau i fuddsoddi mewn ysgolion newydd er mwyn sicrhau'r cyfleusterau gorau i addysgu ein plant.

Beth rydym wedi gwneud?

Rydym wedi cael cadarnhad gan Lywodraeth Cymru bod ein cais am arian band B wedi ei dderbyn, sydd yn rhoi cyfle cyffrous i ni allu datblygu ysgolion newydd a modelau newydd o addysgu yma ym Môn dros y blynyddoedd nesaf. Rydym wedi penderfynu ar y model addysgu yn ardal Corn Hir, Bodffordd a Henblas. Mi fydd y glymblaid yn hyrwyddo moderneiddio er lles addysg plant Ynys Môn ac yn gweithio ar Strategaeth Addysg bydd yn rhoi'r cyfle cyfartal i blant Ynys Môn.

*Rydym am gefnogi Athrawon a'n Prifathrawon er mwyn sicrhau'r safonau gorau i blant Môn.

Beth rydym wedi gwneud?

Rydym wedi cytuno ar gynllun hyfforddi rheolwyr canol ein hunan ac mae 'na griw o athrawon brwdfrydig iawn yn manteisio ar hyn. Rydym wedi hyrwyddo athrawon i fynd ar hyfforddiant CPCP, ac eleni mae gennym y nifer mwyaf ers rhai o flynyddoedd yn manteisio ar yr hyfforddiant yma. Rydym yn cynllunio ein Strategaeth Addysg er mwyn cefnogi ein hathrawon i'r eithaf.

*Rydym eisiau cydweithio gyda phartneriaid er mwyn sicrhau bod ein pobl ifanc yn meithrin sgiliau gwaith hanfodol.

Beth rydym wedi gwneud?

Rydym wedi parhau i gyd weithio yn effeithiol gydag ein partneriaid. Mae'r Deilydd Portffolio wedi ymrwymo yn llwyr i sicrhau bod gan Ynys Môn lais cryf mewn unrhyw drafodaethau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol gyda'r holl bartneriaid.

Gofal

Mae Gofal Cymdeithasol o dan straen parhaol yn ein cymunedau. Rydym o'r farn bod angen cydweithio a chryfhau agweddau o'r gwaith er mwyn ymateb i'r galw -

* Cydweithio efo'r Gwasanaeth Iechyd mewn ffyrdd adeiladol i sicrhau bod cyfle gan bob unigolyn i fyw bywyd annibynnol yn eu cymunedau.

Beth rydym wedi gwneud?

Rydym wedi agor rhan gyntaf o Garreglwyd sydd yn gynllun ar y cyd gyda'r Bwrdd Iechyd a bellach mae ganddom bobl Mon wedi ymgartrefu yno yn llwyddiannus. Rydym yn anffodus wedi cael oedi gyda'r cynllun gofal cartref ond bellach rydym yn symud ymlaen yn bositif gyda hyn ac yn gobeithio bydd y model newydd yn ei le yn ystod misoedd yr haf. Rydym hefyd yn mynychu nifer o gyfarfodydd rhanbarthol er mwyn sicrhau bod Ynys Môn yn gweithio gyda'r Bwrdd Iechyd yn Sirol, Rhanbarthol a cenedlaethol.

* Cryfhau gwasanaeth cefnogaeth i deuluoedd sydd eu hangen.

Beth rydym wedi gwneud?

Rydym wedi sefydlu Tîm Teulu Môn ble mae'r gwasanaeth gwybodaeth a chefnogaeth i deuluoedd ar gael mewn un pwynt mynediad i holl deuluoedd yr Ynys. Rydym wedi ailstrwythuro Tîm Gwasanaeth Plant er mwyn sicrhau'r cyfle gorau i'n gweithwyr cymdeithasol a sicrhau'r gefnogaeth angenrheidiol iddynt er mwyn cefnogi teuluoedd Ynys Môn.

* Cydweithio gyda phartneriaid er mwyn sicrhau cartrefi addas i'n hoedolion hŷn.

Beth rydym wedi gwneud?

Rydym wedi penderfynu adeiladu cynllun Gofal Ychwanegol ym Miwmares er mwyn sicrhau cyfle gorau i'n pobl hyn gallu cael eu cefnogi i fyw yn annibynnol gyda chefnogaeth 24 awr y dydd.

* Sicrhau cefnogaeth i ofalwyr sydd yn gofalu am deulu neu ffrindiau

Beth rydym wedi gwneud?

Parhau i gydweithio yn agos iawn gyda'n partneriaid i sicrhau'r gefnogaeth angenrheidiol i'n gofalwyr yn y Bartneriaeth Môn a Gwynedd. Rydym hefyd yn manteisio ar gynlluniau Rhanbarthol drwy'r Bwrdd Rhan 9 sydd yn cefnogi gofalwyr.

Tai

Mae'r grŵp yn credu bod gan bawb yr hawl i gartref addas -

* Parhau i ymateb i'r angen am dai, trwy adeiladu tai cymdeithasol ein hunain a chynyddu cyflenwad cartrefi fforddiadwy i'n pobl ifanc.

Beth rydym wedi gwneud?

Rydym wedi mabwysiadu cynllun busnes yr Adran sydd yn rhoi cynllun gweithredu adeiladu Tai Cymdeithasol yma ym Môn. Golygir hyn y byddem yn buddsoddi dros £26 Miliwn dros y 4 mlynedd nesaf i adeiladu 195 o dai.

* Sicrhau bod tai gwag yn dod yn ôl i ddefnydd er mwyn ymateb i'r angen am dai.

Beth rydym wedi gwneud?

Rydym wedi cefnogi'r Adran Dai i ddod a gymaint â phosib o dai yn ôl i ddefnydd. Byddwn yn parhau i weithio ar hyn yn ystod y flwyddyn nesaf.

* Sicrhau cefnogaeth i brynwyr cyntaf drwy ddefnyddio premiwm treth cyngor.

Beth rydym wedi gwneud?

Rydym wedi ail ymweld â'r polisi cefnogi prynwyr cyntaf ac wedi ei wneud yn fwy hyblyg er mwyn sicrhau bod ein pobl ifanc yn cael y fanteis fwyaf allan o'r cynllun.

Economi/Gwaith

Mae economi a gwaith yn hanfodol er mwyn cadw ein hieuenctid yn Ynys Môn. Rydym yn credu gallwn wneud hynna drwy -

* Sicrhau budd i fusnesau lleol yn sgîl unrhyw brosiect mawr.

Beth rydym wedi gwneud?

Rydym wedi parhau i bwysleisio pwysigrwydd busnesau lleol ym mhob trafodaeth rydym yn cael gyda chwmnïau mawr a thrafodaethau economaidd rhanbarthol.

* Cefnogi busnesau lleol i allu ceisio am gytundebau'r Cyngor.

Beth rydym wedi gwneud?

Rydym yn cychwyn ar brosiect caffael mewnol er mwyn sicrhau bod gennym systemau sy'n galluogi cwmnïau lleol i fanteisio ar gyfleoedd sydd yn y Cyngor. Mae'r gwaith yma ar gychwyn nawr.

* Hyrwyddo a chreu cyfleoedd i bobl ifanc gyda phrentisiaethau.

Beth rydym wedi gwneud?

Rydym wedi gallu hyrwyddo cynllun 12 wythnos dros yr haf 'Denu Talent' sydd wedi denu nifer sylweddol o bobl ifanc. Mi fydd y cynllun yma yn rhoi cyfle unigryw i bobl ifanc yr ynys brofi nifer o wahanol yrfaoedd gyda'r Cyngor.

Gwarchod yr Amgylchedd

Mae Ynys Môn yn unigryw oherwydd yr amgylchedd naturiol sydd o'i chwmpas. Rydym am -

* Parhau i frwydro yn erbyn y peilonau.

Beth rydym wedi gwneud?

Rydym wedi parhau i fynegi barn gref y Cyngor drwy brotestio, cael trafodaethau mewnol ac allanol a chefnogi grwpiau lleol yn eu brwydr yn erbyn y peilonau.

* Amddiffyn amgylchedd naturiol Môn, sydd mor allweddol i'r sector dwristiaeth.

Beth rydym wedi gwneud?

Rydym wedi mabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol ar y cyd, sef y cyntaf o'i fath yng Nghymru. Rydym nawr yn creu canllawiau cynllunio atodol er mwyn sicrhau'r gorau i anghenion Ynys Môn.

* Sicrhau ein bod yn cyrraedd targedau ailgylchu.

Beth rydym wedi gwneud?

Rydym wedi sicrhau bod gan bob tŷ yn Ynys Môn fynediad i focsys troli os dymunant. Rydym wedi hyrwyddo ailgylchu ymysg ein plant a phobl ifanc. Rydym fel Cyngor wedi ymrwymo i hyrwyddo ailgylchu a bod gennym nod i fod yn Gyngor ddi-blastig.

I Gloi

Rydym wedi cael blwyddyn fythgofiadwy yma ym Môn. Cawsom Eisteddfod Genedlaethol draw ym Modedern ble cafwyd digwyddiad llwyddiannus yng nghanol y glaw, cawsom lifogydd sydd wedi creu dinistr torcalonnus i'n busnesau a thai pobl leol a cawsom drychineb y tywydd garw draw yng Nghaergybi gyda difrod i gychod a busnesau lleol. Mae pob un o rhain yn ddigwyddiadau sydd angen cymorth cenedlaethol, ond yma ym Môn rydym yn ffodus o allu tynnu at ein gilydd mewn argyfwng, hoffwn ddiolch o waelod calon i staff y Cyngor sydd wedi mynd y cam ychwanegol yn ystod cyfnodau heriol iawn er mwyn sicrhau diogelwch a gwasanaethu Ynys Môn. Diolch.

**Cynghorydd Llinos Medi
Arweinydd y Cyngor**